

Rhan 1- Y sgiliau a rhinweddau dwi eisiau ei ddatblygu a pham.

Pa wybodaeth a sgiliau sydd angen i mi ddatblygu	Beth ydw i eisiau cyflawni a pa wahaniaeth fydd hyn ei wneud?	Pa strategaethau allai ddefnyddio?	Pa fath o gymorth bydd angen arnaf?	Dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r amcan	Sut fyddai'n gwybod fy mod wedi cyflawni'r nod, sut byddaf yn adolygu hyn?
laith arwyddion	Yn fy lleoliad gwaith mae yna ychydig o blant sydd yn fud neu'n ddioddef o anawsterau iaith a lleferydd ac felly'n defnyddio iaith arwyddion. Hoffwn gymryd rhan mewn cwrs sign along i adeiladu fy hyder ac ehangu fy nefnydd o iaith arwyddion.	Gallaf gysylltu fy rheolwr llinell gyda fy nymuniadau i gwblhau'r cwrs sign along. Gallaf wyllo fideos ar y we a phrynu llyfrau er mwyn ddysgu yn fy amser hyn.	Mae'n debygol bydd angen i mi gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn mynychu'r cwrs.	Ebrill 2024	Byddaf yn sylwi ar gynnydd yn fy nefnydd o iaith arwyddion a byddaf yn teimlo'n fwy hyderus wrth gyfathrebu ag eraill. Byddaf yn derbyn tystysgrif yn nodi fy mod wedi llwyddo yn y cwrs.
Ymwybyddiaeth o awtistiaeth	Credaf fod hwn yn bwnc pwysig oherwydd mae gan lawer o blant yn fy lleoliad gwaith Awtistiaeth. Hoffwn gymryd rhan mewn cwrs ymwybyddiaeth Awtistiaeth er mwyn ddatblygu fy nealltwriaeth o'r pwnc sydd yn fy ngalluogi i ddarparu profiad ddysgu well i'r plant hyn, a chreu dulliau dysgu addas ar ei chyfer.	Gallaf gysylltu fy rheolwr llinell gyda fy nymuniadau i gwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth Awtistiaeth, mae'n debygol allaf gwblhau'r cwrs ar y wê. Gallaf ymchwilio ar y wê a darllen fwy am y testun.	Bydd angen amser arnaf i gwblhau'r cwrs ac ymchwilio ar y wê.	Ebrill 2024	Byddaf deimlo'n fwy hyderus wrth ymdrin â sefyllfaoedd penodol. Byddaf yn teimlo'n gyfforddus i roi cynnig ar ddulliau newydd sy'n efallai'n gweithio'n well i'r plant. Byddaf yn fwy hyderus wrth roi cynnig ar wahanol ddulliau gweithredu gyda'r plant hyn er mwyn ddarparu'r addysg gorau iddynt.
Cylchedau synhwyrdd a rhyngweithio dwys	Fel unigolyn sydd yn gweithio'n agos gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, rwy'n rhedeg sesiynau cylchedau synhwyrdd a chynnal gweithgareddau rhyngweithio dwys. Teimlaf wrth ymchwilio ym mhellach ar y testun gallaf ddatblygu fy nealltwriaeth gyffredinol o hyn sydd yn fy ngalluogi i ddefnyddio ystod eang o	Byddaf yn ymchwilio ar y wê er mwyn casglu amrywiaeth o syniadau newydd i'w hychwanegu at fy ngweithgareddau. Gallaf fynychu ambell i gwrs sydd yn benodol ar gyfer y pynciau yma, bydd hyn yn caniatáu mi i gasglu gwybodaeth fanwl	Bydd angen amser arnaf i gwblhau'r cwrs ac ymchwilio ar y wê.	Ebrill 2024	Byddaf yn teimlo'n fwy hyderus wrth gynnal cylchedau synhwyrdd a gweithgareddau rhyngweithio dwys. Byddaf yn sylwi y gallaf newid y sesiynau yn hyderus trwy ddefnyddio syniadau newydd. Byddaf yn derbyn gwell ymateb gan y plant yn ystod y sesiynau yma. Os byddaf yn ymgymryd mewn cwrs byddaf yn derbyn tystysgrif i nodi fy mod wedi llwyddo.

ECEY4009C



2306769

Nifer o eiriau- 2,913

	syniadau gwahanol er mwyn cynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol.	bellach a allai fod o ddefnydd da.			
--	---	---------------------------------------	--	--	--

Rhan 2

Mae PACEY (2016) yn disgrifio arfer myfyriol fel cylch parhaus o fyfyrion ac asesu ar eich gwaith gyda'r bwriad o ddatblygu a chryfhau. Awgryma PACEY (2016) bod ymarfer myfyriol yn ffordd dda o gynnal a gwella ansawdd eich gwaith wrth ddarparu'r gofal gorau posibl i blant yn eich lleoliad. Yn ôl Brock (2014) mae myfyrion ac ymarfer myfyriol yn hanfodol i weithwyr proffesiynol gan ei fod yn chwarae rôl allweddol wrth gyfrannu tuag at ei datblygiad proffesiynol. Er mwyn adlewyrchu i ddangos pwrpas mae angen rhesymeg arwyddocaol meddai Brock (2014).	Dywed Addysg Ryngwladol Caergrawnt (dim dyddiad) bod arfer myfyriol yn cefnogi pawb yn y blynyddoedd cynnar, drwy awgrymu bod athrawon yn sefydlu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar les ganolog y plant drwy fyfyrion. Bydd plant a dysgwyr ifanc yn elwa ar y fath hon o amgylchedd wrth iddynt ddatblygu eu creadigrwydd, cyfrifoldeb, hyder, hunan-sicrwydd a sgiliau ymgysylltu (Addysg Ryngwladol Caergrawnt dim dyddiad). Cefnogir hyn gan Paige-Smith <i>et al.</i> (2011) gan eu bod yn honni bod ymarfer myfyriol yn ofniad hanfodol i bawb sy'n gweithio ym maes dysgu a datblygiad plant. Dywed Paige-Smith <i>et al.</i> (2011) fod gweithwyr blynyddoedd cynnar yn cael eu hannog i fyfyrion ar eu gwaith drwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau gwahanol er mwyn hybu eu twf proffesiynol. Yn ôl PACEY (2016) gall datblygu arfer myfyriol arwain at ddatblygiad ar lefel bersonol a phroffesiynol. Creda PACEY (2016) bod datblygiad parhaus a myfyriol yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a all arwain at well canlyniadau a chyflawniadau uwch. Mae PACEY (2016) yn datgan y bydd rhieni a gofalmwr hefyd yn elwa o fyfyrion, sy'n rhan hanfodol o arferion blynyddoedd cynnar.
Yn ôl Y Brifysgol Agored (1999-2023) mae'r term 'ymarfer myfyriol' yn tarddu o waith Shön a Dewey. Creda Dewey a gafodd ei ddyfynnu yn y Brifysgol Agored (1999-2023) mai ymarfer myfyriol yw archwiliad deinamig, parhaus, a gofalus o unrhyw gred. Mae hyn yn awgrymu y bydd unigolion yn ymdrin â sefyllfaoedd gyda meddylfryd agored, ac yn cwestiynu pam mae pethau fel y maen nhw a sut y gallant fod. Yn ôl y Brifysgol Agored (1999-2023) mae theori myfyrion Dewey yn hollbwysig yng nghyd-destun addysgu gan ddylai eich gweithredoedd a'ch ymddygiad o fewn eich lleoliad fod wedi'u cynllunio'n ofalus, wedi'u hysbrydoli gan ddamcaniaeth a phrofiad ymarferol. Mae gan Schön a ddyfynnwyd yn Y Brifysgol Agored (1999-2023) farn ychydig yn wahanol. Mae Shön o farn bod yna ddau fath o fyfyrion, myfyrion-ar-waith a myfyrion-ar-weithredu (Y Brif Ysgol Agored 1999-2023). Yn ôl Slessor <i>et al.</i> (2007) mae myfyrion ar waith yn fath o feddwl cyflym. Mae myfyrion-ar-waith yn galluogi unigolion i addasu'r sefyllfa neu'r dasg y maent yn gweithio arni wrth iddynt barhau (Slessor <i>et al.</i> 2007) Yn ôl Smith (2001, 2011) mae myfyrion ar weithredu yn golygu myfyrion ar y gorfennol. Mae Smith (2001, 2011) yn amlgu pwysigrwydd myfyrion-ar-weithredu drwy awgrymu bod y broses yn caniatáu inni ymchwilio'n ddyfnach i'r rhesymau y tu ôl i'n gweithredoedd.	



Mae Fallin (2021) yn esbonio bod Gibbs wedi llwyddo i ymgorffori disgrifiadau mewn un adran o fewn ei gylch myfyriol ac ystyrir hyn yn fuddiol. Mae cylch myfyrion Gibbs yn pwysleisio ar deimladau, sy'n cael ei ddiystyru'n aml meddai Fallin (2021). Mae rhai myfyrwyr yn elwa ar y strwythur llym sydd i weld o fewn model myfyriol Gibbs (Fallin 2021). Ar y llaw arall, mae Fallin (2021) yn nodi rhai o'r pethau negyddol sydd i weld ym model Gibbs. Mae'n honni bod y fodel yn ddiffyg dyfnder ac nad yw'n gwneud unrhyw gysylltiadau ystyrion. Mae Fallin (2021) yn esbonio bod y model yn anwybyddu eraill ac yn canolbwyntio gormod ar yr adlewyrchydd. Nid yw sgiliau fel meddwl yn feiriadol yn cael eu

ECEY4009C

2306769

Nifer o eiriau- 2,913

hyrwyddo o fewn y cylch myfyrio (Fallin 2022). Yn ôl Manilla *et al.* (1987) Mae model dysgu Kolb yn cynnig fframwaith o ddadansoddi'r dewis o wirionedd ehangach o weithgareddau dosbarth. Mae dwy ran i fodel myfyriol Kolb ac mae'r broses ddysgu wedi'i rhannu'n bedwar cam syml a hawdd eu dilyn yn ôl Theori dysgu L&D (2023). Yn ôl Kolb a gafodd ei ddyfynnu yn Theori dysgu L&D (2023) gall myfyrwyr drawsnewid eu profiadau i wybodaeth trwy weithio eu ffordd trwy'r pedwar cam, ac mae hyn yn cael ei ystyried yn fuddiol i lawer. Ar y llaw arall, mae Theori dysgu L&D (2023) yn amlygu rhai o'r pethau negyddol o fewn model Kolbs, er enghraifft nid yw'n ystyried goblygiadau dysgu yn ogystal â'r gwahanol gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol y gall ddigwydd ynddynt. Gellir dadlau bod model myfyriol Kolbs yn rhy syml, ac efallai na fydd arddulliau dysgu yn aros yn gyson dros amser (Theori dysgu L&D 2023).

Casgliad

Wrth ymchwilio a chasglu gwybodaeth, chredaf ddylai gweithwyr myfyrio yn rheolaidd ar er waith drwy osod nodau a thargedau newydd er mwyn gyfrannu tuag at ei datblygiad proffesiynol. Yng nghyd-destun gofal plant ddarganfyddais fod ymarfer myfyriol yn cael dylanwad cadarnhaol ar y plant a'i rhieni/gofalwyr, felly, i grynhoi, mae'n amlwg fod ymarfer myfyriol yn holl bwysig i unrhyw weithwyr proffesiynol.

Rhan 3

Mae Gasper (2015) yn esbonio na allwn ddiffinio'n hawdd beth yw ystyr gweithiwr proffesiynol. Mae "proffesiynol" mewn amgylchiadau eraill yn cyfeirio at bobl â gradd neu wybodaeth arbenigol yn unig, ond o fewn y blynyddoedd cynnar, mae rhinweddau ymarferol unigolyn yn fwy gwerthfawr ac arwyddocaol na gradd dywed Gasper (2015). Cefnogir hyn gan Brock (dim dyddiad) sy'n awgrymu bod angen fwy na chymwysterau, profiad, sgiliau a hyfforddiant ar unigolyn sy'n gweithio gyda phlant ifanc. Dywed Brock (dim dyddiad) bod gweithwyr Professional yn ymwneud â'r agwedd gywir, safbwyntiau, syniadau a gwerthoedd. Wrth ystyried proffesiynoldeb yn y blynyddoedd cynnar mae Brock (dim dyddiad) yn amlygu pwysigrwydd brwdfrydedd a rhyddid i benderfynu beth sydd orau i'r plant a'u theuluoedd. Fel arall, gellir ystyried proffesiynoldeb hefyd fel cyflwr meddwl yn hytrach na set o alluoedd a chymhwysedd unigryw yn ôl Yeo a gafodd ei ddyfynnu yng Nghnada Medical Association (2012).

Yn ôl y gynghrair blynyddoedd cynnar (2003-2019) maen disgwyledig i leoliadau blynyddoedd cynnar hyrwyddo'r gwerthoedd Prydeinig yn ddyddiol, sydd eisoes wedi'u gosod o fewn cyfnod sylfaen y Blynyddoedd Cynnar, fel rhan o genhadaeth atal y llywodraeth. Mae gwerthoedd Prydeinig yn cynnwys, dangos parch tuag at eraill, goddefgarwch tuag at bobl sydd â safbwyntiau amrywiol, ddemocratiaeth, rhyddid barn a rheolaeth y gyfraith. (Cynghrair blynyddoedd cynnar, 2003-2019). Cred y feithrinfa (2018) mai'r prif nod o fewn y blynyddoedd cynnar yw dysgu plant a phobl ifanc bod eu syniadau yn bwysig, a ddylid parchu barn ac emosiynau eraill. Mae Clarke (2015) yn amlygu gwerthoedd pwysig seryddol sy'n hanfodol i ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Mae Clarke (2015) yn credu bod gonestrwydd yn werth pwysig i unrhyw weithiwr blynyddoedd cynnar, oherwydd mae unigolyn gonest yn gosod esiampl dda i blant o fewn eu lleoliad, gyda'r gobaith y bydd y plant yn sylwi ar eu gonestrwydd. Mae parch yn werth pwysig arall meddai Clarke (2015), y dylai'r rhai sy'n gweithio gyda phlant fod yn ymwybodol o'r galluoedd amrywiol, ffydd ac ethnigrwydd sy'n bresennol yn eu lleoliad. Trwy barchu plant rydym yn eu helpu i ddod yn fwy hyderus, a all wneud yr ysgol yn fwy pleserus iddynt (Clarke 2015). Nodwedd hanfodol arall yw caredigrwydd, gall plant gael eu hysbrydoli i drin ei gilydd gyda charedigrwydd pan fyddant yn gweld caredigrwydd ar waith yn ddyddiol. Mae amgylchedd caredig a chadarnhaol yn cyfoethogi deinameg yr ystafell ddosbarth sy'n galluogi plant i fwynhau dysgu (Clarke 2015). Mae tegwch yn hanfodol ar gyfer addysgu plant beth sy'n dda a beth sy'n anghywir, mae'n hollbwysig bod gweithwyr blynyddoedd cynnar yn trin pob plentyn yn deg waeth beth fo'u hethnigrwydd, cefndir, dosbarth cymdeithasol a rhyw. (Clarke 2015). Mae erthygl tri gan CCUHP yn nodi y dylai'r rhai sydd mewn swyddi o awdurdod gynnal hawliau plant a phobl ifanc ystyried eu buddiannau a'i hawliau bob amser, yn ogystal â hyn mae'n holl bwysig fod oedolion yn ystyried buddiannau gorau plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau sydd yn cael effaith arnynt (Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban, 2006-2023).

Yn ôl City Guilds (2019) mae'n ofynnol bod gweithwyr gofal plant yn datblygu ei sgiliau cyfathrebu er mwyn allu cydweithio'n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr, plant, phobl broffesiynol ac aelodau eraill o staff. Un o'r sgiliau pwysicaf gall gweithwyr gofal plant eu caffael yw sgiliau cyfathrebu, gan fod hyn yn

holl bwysig yn y maes gofal plant dywed City Guilds (2019). Cefnogir hyn gan Traub (1993-2023) sy'n awgrymu mae cyfathrebu a gwranddo ar blant yw un o'r profiadau mwyaf hanfodol y gall oedolion ei gynnig. Gall plant ac oedolion feithrin perthnasoedd trwy ryngweithio rheolaidd, sydd yn arwain at hunan ddysgu plant. Dywed Traub (1993-2023) yn ôl ymchwil, creda bod cyfathrebu a rhyngweithio cadarnhaol yn nodweddion o sut i wella perthnasoedd rhwng rhieni a'i phlant. Mae perthnasoedd iach yn cynnwys cyfathrebu rheolaidd am ystod eang o bynciau (Traub 1993-2023). Mae Gwell Iechyd (2021) yn nodi bod profiadau cynnar yn cael effaith fawr ar hunan-gymhelliant plentyn yn y dyfodol, ei reolaeth straen a'i ymdeimlad o hyder, felly mae canfyddiad person ohono'i hun a'i safle o fewn ei deulu a'i gymuned yn gyfystyr â'i "hunan gysyniad". Yn ôl gwell iechyd (2021) mae plant yn ffynnu pan glywant eiriau o anogaeth a chanmoliaeth. Mae sylwadau cadarnhaol yn helpu plant i deimlo'n hyderus a bodlon. Mae sefydlu hunan-gysyniad cadarnhaol mewn plentyn yn dibynnu ar ansawdd eu perthnasoedd gydag eraill, gall plentyn sy'n profi beirniadaeth, barn a bai cyson ddatblygu hunan-gysyniad gwael fel oedolyn (gwell iechyd 2021). Mae Erthygl deuddeg gan CCUHP yn hyrwyddo perthnasoedd iach a chyfathrebu trwy ddatgan bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i leisio'u barn heb gael ei farnu, i gael eu clywed ac i gael eu cymryd o ddifrif (Comisiynydd Plant a phobl ifanc yr Alban, 2006-2023).

Mae Gwiriad gofal (2023) yn amlygu pwysigrwydd diogelu drwy ddatgan ei bod yn weithdrefn hollbwysig sy'n amddiffyn oedolion a phlant rhag camdriniaeth, rhywiol, esgeulustod emosiynol, corfforol a niweidiol. Pan fydd oedolion a phlant yn cymryd rhan yn y gwasanaethau y mae gweithleoedd ac ysgolion yn eu cynnig, mae eu diogelwch a'u llesiant yn hollbwysig (Gwiriad Gofal 2023). Mae gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r weithdrefn ddiogelu yn hanfodol i bob gweithiwr mewn ysgol neu weithle, gan fod ganddynt gyfrifoldeb i amddiffyn gweithwyr eraill a phlant yn ogystal â darparu cymorth priodol i'r rhai na allant amddiffyn eu hun yn erbyn cam-driniaeth (Gwiriad gofal 2023). Awgryma NSPCC (2023) bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag oedolion a phlant eraill a allai fod yn risg pan fydd polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith ac yn cael ei ddilyn yn gywir. Mae dealltwriaeth fanwl o'r diffiniad o ddiogelu yn galluogi gweithwyr i gymryd mesurau priodol i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y gofal gorau posibl (NSPCC 2023). Mae Erthygl pedwerydd a bymtheg gan CCUHP yn honni bod gan bob plentyn yr hawl i gael eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth, boed hyn yn emosiynol, esgeulustod, corffol, rhywiol a niweidiol (Comisiynydd Plant a phobl ifanc yr Alban, 2006-2023).

Yn ôl City Guilds (2019) aml-asiantaeth yw pan fydd cyfleusterau gofal plant fel ysgolion a meithrinfeydd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill i fynd i'r afael ag anghenion plant a'u teuluoedd/gofalwyr. Yn ogystal â dysgu sut i weithio gyda phlant, mae angen i weithwyr proffesiynol hefyd ddysgu sut i gydweithio â rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'n bwysig bod gweithwyr yn addasu i ddull gweithio sy'n cynnwys cyfathrebu ar anghenion y plentyn meddai City Guilds (2019). Mae City Guilds (2019) yn awgrymu ei bod yn hanfodol bod pob gweithiwr gofal plant yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau er mwyn creu tîm cydlynol sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol. Gan fod pob plentyn yn unigryw a bod ganddo anghenion gwahanol, mae'n hanfodol bod darparwyr

gofal plant yn deall pryd a sut i atgyweirio rhai plant am gymorth arbenigol (City Guilds 2019). Er mwyn sicrhau bod plant yn cael y cyfleoedd gorau posibl, rhaid i leoliadau gydweithio'n effeithiol ag arbenigwyr fel ymwelwyr ieuchyd, therapyddion iaith a lleferydd a gweithwyr cymdeithasol yn ogystal â chyfathrebu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr. Mae'n hanfodol sicrhau cymorth ychwanegol, yn enwedig os oes gan blentyn broblemau datblygiadol neu os yw'n datblygu'n araf (City Guilds 2019). Mae Erthygl naw ar hugain gan CCUHP yn cefnogi hyn drwy ddatgan bod gan bob plentyn yr hawl i fod yn fersiwn orau bosibl ohonynt eu hunain, a bod hi'n ddyletswydd ar ddarparwyr addysgol helpu i ddatblygu eu sgiliau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei llawn botensial (Plant a chomisiynydd pobl ifanc yr Alban, 2006-2023).

Awgryma Forman *et al.* (dim dyddiad) bod angen i weithwyr gofal plant, arsylwi ar y plant er mwyn dysgu am eu personoliaethau, deall pa sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu, dysgu am eu diddordebau a phennu eu cyfnod datblygu. Mae cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar (2007) yn nodi bod babanod a phlant ifanc i gyd yn unigolion, gyda sgiliau a galluedd gwahanol. Arsylwi plant yw'r cam cyntaf mewn unrhyw broses gynllunio, gan ei fod yn helpu gweithwyr blynyddoedd cynnar i adnabod a deall diddordebau, cyfnod dysgu a datblygiad presennol pob plentyn (Cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar 2007). Er mwyn annog datblygiad, dylid addasu arferion ac amserlenni i ddiwallu anghenion pob plentyn yn ôl Cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar (2007). Yn ôl Cyngor Sir Gorllewin Sussex (2021) mae gweld plentyn fel unigolyn trwy arsylwadau yn hanfodol i bob plentyn mewn unrhyw sefyllfa, yn enwedig o fewn grŵpiau mawr. Mae Cyngor Sir Gorllewin Sussex (2021) yn amlygu pwysigrwydd arsylwi wrth weithio gyda phlant o bob oed, gan ei fod yn chwarae rhan fawr yn ein hymarfer proffesiynol dyddiol. Mae Cyngor Sir Gorllewin Sussex (2021) yn disgrifio arsylwi fel y broses yr ydym yn ei defnyddio i nodi gofynion pob plentyn, trwy arsylwi'n agos a thalu sylw i weithgareddau plentyn neu grŵp o blant. Mae Cyngor Sir Gorllewin Sussex (2021) yn awgrymu bod angen i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar gynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi'i ddarganfod yn eu harsylwadau, felly os nad yw arsylwi'n cael ei wneud yn effeithiol gall gweithwyr y blynyddoedd cynnar fethu â diwallu anghenion y plant.

Casgliad

I grynhoi, wrth adnabod a dadansoddi'r pwysigrwydd o'r gwahanol agweddau Professional uchod, credaf fod y pwyntiau i gyd yn bwysig er mwyn allu cwrdd ag anghenion unigol ac anghenion cynhwysol plant. Mae'r holl nodweddion uchod yn gweithio'n ochr wrth ochr â'r erthyglau a ysgrifennwyd gan CCUHP, a heb y gwerthoedd yma ni fydd anghenion y plant yn cael eu cyrraedd.

ECEY4009C
2306769
Nifer o eiriau- 2,913

Llyfryddiaeth

Better Health, (2021) *Young children and communication*. Available at: <https://www.betterhealth.vic.gov.au/health/healthyliving/young-children-and-communication> (Accessed 27 o Hydref 2023)

Brock, A. (no date) 'Dimensions of early years professionalism - attitudes versus competences?' tud 2-3. (Accessed 24ydd o Hydref 2023).

Brock, A. (ed.) (2015) *The early years reflective practice handbook*. London: Routledge

Cambridge International Education, (no date). *Getting started with Reflective Practice*. Available at: <https://www.cambridge-community.org.uk/professional-development/gswrp/index.html#group-Benefits-Do2IUdvXtY> (Accessed 17fed o Hydref 2023).

Canadian Medical Association, (2012) 'Professionalism: What is it?'. 184(10), tud 1129.

Care Check (2023) *What is safeguarding and why is it important?*. Available at <https://www.carecheck.co.uk/importance-of-safeguarding/#:~:text=Safeguarding%20is%20a%20vital%20process,that%20schools%20and%20workplaces%20provide>. (accessed 27 o Hydref 2023)

Children & young people's commissioner Scotland, (2006-2023) *UNCRC Simplified articles*. Available at: <https://www.cypcs.org.uk/rights/uncrc/articles/article-3/> (Accessed 26 o Hydref 2023)

City Guilds (2019) *working in partnership with others*. Available at: http://resource.download.wjec.co.uk.s3-eu-west-1.amazonaws.com/vtc/2018-19/hsc18-19_3-3/_multi-lang/unit02/01-principles-of-partnership-importance-of-multi-agency-working.html (Accessed 27 o Hydref 2023)

City Guilds, (2019) *Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yng nghyd-destun gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant*. Available at: http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/HSC18-19_3-1/_multi-lang/unit08/01-effective-communication.html#:~:text=Effective%20communication%20helps%20families%2Fcarers,build%20and%20develop%20positive%20relationships. (Accessed 27 o Hydref 2023)

Clarke, L. (2015) 'Values of a professional teacher', *Lauren's university eportfolio*, 08/10. Available at: <https://blogs.glowscotland.org.uk/glowblogs/myunieportfolioljc/2015/10/08/values-of-a-professional-teacher/> (Accessed 26 o Hydref 2023)

Early Years Alliance, (2003-2019) *The Prevent duty and British values*. Available at: <https://www.eyalliance.org.uk/british-values-0> (Accessed 25fed o Hydref 2023)

Fallin, L. (2021) 'Why I don't like Gibbs' Reflective Cycle in reflective practise' Available at: <https://leefallin.co.uk/2021/10/why-i-dont-like-gibbs-reflective-cycle-in-reflective-practice/> (accessed 27 o Hydref 2023)

Forman, G., and Hall, E. (no date) *Wondering with children: The importance of Observation in early education*. Amherst, Massachusetts. Videatives Inc. (Accessed 28 o Hydref 2023)

Gasper, M. (2015) 'professional practice and early childhood today', in Reed, M. And Walker, R. (eds) *A critical companion to early childhood*. London: Sage Publications Inc, tud 2. (accessed 24ydd o Hydref 2023).

Gibbs' reflective cycle (2023) Available at: <https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle> (Accessed 26 o Hydref 2023)

ECEY4009C

2306769

Nifer o eiriau- 2,913

Kolb's learning styles and experiential learning cycle (2023) Available at:

<https://www.simplypsychology.org/learning-kolb.html> Accessed 26 o Hydref 2023)

L&D learning theory. (2023) 'Demystifying Kolb' Experiential learning theory: a complete guide', *Growth engineering*, 09/June. Available at: <https://www.growthengineering.co.uk/kolb-experiential-learning-theory/> (Accessed 28 o Hydref 2023)

Manilla D. Svinicki & Nancy M. Dixon (1987) 'The Kolb Model Modified for Classroom Activities', *College Teaching*, 35:4, 141-146, DOI: [10.1080/87567555.1987.9925469](https://doi.org/10.1080/87567555.1987.9925469) (Accessed 28 o Hydref 2023)

NSPCC (2023) *Safeguarding children and child protection*. Available at:

<https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-child-protection#:~:text=Setting%20up%20and%20following%20good,schools%2C%20hospitals%20and%20sports%20clubs>. (Accessed 27 o Hydref 2023)

Nursery recourses, (2023) *Teaching British Values in EYFS*. Available at: <https://www-citethemrightonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/sourcetype?docid=b-9781350927964&tocid=b-9781350927964-34> (Accessed 25 o Hydref 2023)

PACEY, (2016) *Supporting members to provide the highest standards of care and learning for children*. Available at: [https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG04-self-reflective-practice.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG04-self-reflective-practice.pdf) (Accessed 15 o Hydref 2023).

Paige-Smith, A. and Craft, A. (2011) *Developing reflective practise in the early years*. 2nd EDN.

Slessor, S. *et al.* (2007) *reflective practise*. Available at:

<https://content.iriss.org.uk/reflectivepractice/index.html> (Accessed 18fed o Hydref 2023).

Smith, M. K. (2001, 2011) 'Donald Schön: learning, reflection and change', *The encyclopedia of pedagogy and informal education*. Available at: <https://infed.org/donald-schon-learning-reflection-change/> (Accessed 18fed o Hydref 2023).

The early year's foundation stage (2007) *Observation, Assessment and Planning*. Available at: https://www.earlyyearsmatters.co.uk/wp-content/uploads/2011/03/eyfs_enble_env_obs_ass1.pdf (Accessed 28 o Hydref 2023).

The Open University, (1999-2023) *learning to teach: becoming a reflective practitioner*. Available at: [https://www.open.edu/openlearn/education-development/learning-teach-becoming-reflective-practitioner/content-section-2.1#:~:text=Dewey%20\(1910%2C%20p.,the%20grounds%20that%20support%20it%27](https://www.open.edu/openlearn/education-development/learning-teach-becoming-reflective-practitioner/content-section-2.1#:~:text=Dewey%20(1910%2C%20p.,the%20grounds%20that%20support%20it%27). (Accessed 18fed o Hydref 2023).

Traub, S. (1993-2023) *Communicating effectively with children*. Available at:

<https://extension.missouri.edu/publications/gh6123#:~:text=One%20of%20the%20most%20important,about%20themselves%20and%20the%20world>. (Accessed 27 o Hydref 2023)

West Sussex County Council (2021) *Effective Practice: Observation, Assessment and Planning*.

Available at: https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf (Accessed 28 o Hydref 2023)

ECEY4009C
2306769
Nifer o eiriau- 2,913